# Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Newbridge, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo gwaith cynnal a chadw tiroedd blynyddol yn cael ei wneud ar Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wrth Ffordd Osgoi Newbridge ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol ynghylch ei hyd a'i led, yn weithredol o 7 Mai 2013 tan 23 Mai 2013 a 2 Hydref 2013 tan 16 Hydref 2013 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir mai dim ond rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch ar yr adegau a bennir uchod y bydd y gwaith yn digwydd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) hyd at ei chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Halton.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd ymadael â'r gefnffordd wrth Gyffordd 1 a dilyn yr A539 tua'r gorllewin, y B5605 tua'r de a'r A5 tua'r de-ddwyrain i ailymuno â'r gefnffordd wrth Gylchfan Halton. Y gwrthwyneb i hyn fydd y llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2013).

M D BURNELL
Trafnidiaeth

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## The A483 Trunk Road (Newbridge Bypass, Wrexham County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2013

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to safeguard road user and the workforce whilst annual grounds maintenance works are carried out on the Swansea – Manchester Trunk Road (A483) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Newbridge Bypass in the County Borough of Wrexham.

The temporary prohibition, the extent of which will be signed accordingly, is expected to operate from 7 May 2013 to 23 May 2013 and 2 October 2013 to 16 October 2013 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are only expected to operate between 19:00 hours and 06:00 hours during the periods stated above.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding in the length of the trunk road that extends from the centre-point of Junction 1 (Ruabon Interchange) to its junction with the northern side of Halton Roundabout.

The alternative route for southbound vehicles will be to leave the trunk road at Junction 1 and follow the westbound A539, southbound B5605 and south-eastbound A5 to rejoin the trunk road at Halton Roundabout. The alternative route for northbound vehicles will be vice versa.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2013).

M D BURNELL
Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE